

Ar ran Cymdeithas Arddwriaethol ac Amaethyddol Llanfyllin a'r Cylch a'i holl aelodau hoffwn eich croesawu chi gyd i'n 150fed sioe flynyddol Llanfyllin. Mae gan y sioe hanes cyfoethog ac mae'n ddathliad o gefn gwlad a'r gymuned.

Roedd ein 149fed sioe yn llwyddiant ysgubol ac roedd pawb yn adrodd eu bod wedi cael diwrnod allan gwerth chweil gyda theulu a ffrindiau. Dros y 150 mlynedd diwethaf, mae sioe wedi cael ei chynnal bob blwyddyn, ac eithrio yn ystod cyfnodau o ryfel a chlwyf y Traed a'r Genau.

Eleni rydym yn croesawu Janet Jones fel ein Llywydd. Mae teulu Janet wedi bod yn rhan o'r sioe ers nifer o flynyddoedd ac maent wedi bod yn hael iawn yn rhoi mynediad i'w tir er mwyn galluogi cynnal y sioe. Hoffwn hefyd ddiolch i Simon Baines am roi ei ganiatâd i ddefnyddio'i dir i gynnal y sioe.

Gyda'r llwyddiant hwn a llwyddiant nifer o ffermwyr ac arddangoswyr flwyddyn ar ôl blwyddyn yr ydym yn gallu cynnal un o sioeau gwledig gorau Cymru. Credaf fod digwyddiadau fel ein sioe ni yn bwysig iawn gan eu bod yn dod â phawb ynghyd. Ar gyfer ein 150fed sioe rydym wedi trefnu adloniant gwych a bydd yna ystod o sioeau a stondinau atodol i'w mwynhau.

Fel pob sioe arall rydym yn dibynnu ar yr arddangoswyr i'w gwneud yn Sioe lwyddiannus. Pob blwyddyn, mae safon a nifer yr arddangoswyr ym mhob adran wedi cynyddu ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu ein harddangoswyr rheolaidd a chyfarfod â rhai newydd.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n holl noddwyr hael am ddigwyddiad heddiw, gan na fyddai'r sioe yn gymaint o lwyddiant heb eich cefnogaeth.

Mae'n anrhydedd o'r mwyaf i fod yn rhan o bwyllgor mor ymroddgar a gweithgar — nid yn unig ar ddiwrnod y Sioe ond yn ystod y misoedd cyn yr achlysur hefyd. Hoffwn ddiolch o galon iddynt am eu hamser ac ymdrech ddiflino. Mae bob amser yn ffrindiau croesawu aelodau newydd i'r pwyllgor neu'r rhai hynny sydd yn rhoi eu hamser yn ystod y paratodau ac ar ddiwrnod y Sioe. Cysylltwch â mi neu ein hysgrifennydd hyfryd Jill Hollinshead os oes gennych ddi-ddordeb mewn helpu.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi gyd ym Mharc Bodfach.

Diolch

Dyfrig Jones